***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, Adran 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

# Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

**2009 mccc 4**

*Comisiynydd Safonau **[**[F1]y Senedd**]***

## 1 Y Comisiynydd

(1) Bydd Comisiynydd Safonau ar gyfer **[**[F1]y Senedd**]** (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel “y Comisiynydd”).

(2) Mae'r Comisiynydd i'w benodi gan y **[**[F2]Senedd**]**.

(3) Nid yw person yn gymwys i'w benodi'n Gomisiynydd os yw'r person hwnnw —

- (a) yn **[**[F3]Aelod o'r Senedd**]**,
- (b) wedi bod yn **[**[F3]Aelod o'r Senedd**]** ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym,
- (c) yn aelod o staff y **[**[F2]Senedd**]**,
- (d) wedi bod yn aelod o staff y **[**[F2]Senedd**]** ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym,
- (e) yn aelod o staff Llywodraeth [F4]... Cymru, neu
- (f) wedi bod yn aelod o staff Llywodraeth [F5]... Cymru ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 2 flynedd cyn y dyddiad y mae'r penodiad i ddod i rym.

(4) Mae'r Comisiynydd i'w benodi am gyfnod o 6 blynedd.

(5) Ni chaniateir i berson sydd wedi dal swydd y Comisiynydd gael ei benodi am gyfnod arall (yn olynol neu beidio).

(6) Caniateir ar unrhyw adeg i berson sydd wedi'i benodi'n Gomisiynydd —

- (a) ymddiswyddo drwy hysbysiad a roddir i'r **[**[F2]Senedd**]**, neu
- (b) cael ei ddiswyddo gan y **[**[F2]Senedd**]**.

(7) Ni chaniateir i berson gael ei ddiswyddo o swydd y Comisiynydd o dan is-adran (6)(b) oni bai —

- (a) bod y **[**[F2]Senedd**]** yn penderfynu felly, a

(b) bod nifer y pleidleisiau a fwrir o blaid y penderfyniad, os caiff y penderfyniad ei basio drwy bleidlais, heb fod yn llai na dau draean o gyfanswm y pleidleisiau a fwrir.

(8) Mae penodiad person yn Gomisiynydd yn dod i ben os bydd y person hwnnw —

[F6](a) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(b) yn cael ei benodi'n Gwnsler Cyffredinol, neu ei ddynodi i arfer swyddogaethau'r swydd honno, o dan adran 49 o'r Ddeddf, neu,

(c) yn cael ei benodi'n aelod o staff y **[**[F2]Senedd**]** neu o staff Llywodraeth [F7]... Cymru.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn a. 1(1) wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **aau. 7**, 42(2)

**F2** Geiriau yn y Mesur wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 3(11)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 3(6)(7))

**F3** Geiriau yn y Mesur wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 3(8)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 3(6)(7))

**F4** Gair yn a. 1(3)(e) wedi ei hepgor (6.5.2020) yn rhinwedd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(3)(a)**

**F5** Gair yn a. 1(3)(f) wedi ei hepgor (6.5.2020) yn rhinwedd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(3)(a)**

**F6** A. 1(8)(a) wedi ei hepgor (yn effeithiol yn unol ag a. 42(1)(c) o'r Ddeddf ddiwygio) yn rhinwedd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **a. 35(3)**

**F7** Gair yn a. 1(8)(c) wedi ei hepgor (6.5.2020) yn rhinwedd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(3)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 10.12.2009, gweler **a. 21(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, Adran 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

- Sch. 1 para. 1(d) word omitted by 2024 asc 4 s. 10(13)(a)(i)
- Sch. 1 para. 1(d) words substituted by 2024 asc 4 s. 10(13)(a)(ii)
- Sch. 1 para. 3 words substituted by 2024 asc 4 s. 10(13)(b)